


# ADRODDIAD EFFAITH MENTER MYFYRWYR

## AWST 2024 – GORFFENNAF 2025

BYDDWCH YN YSBRYDOLEDIG | CYMERWCH RAN | BYDDWCH YN FENTRUS

**Cynhyrchwyd gan y Gwasanaeth Ymchwil a Chyfnewid Gwybodaeth**

Swansea University
Prifysgol Abertawe

# CWRDD Â'R **TÎM MENTER MYFYRWYR**

Mae'r tîm menter myfyrwyr yn rhan o'r Gwasanaeth Ymchwil a Chyfnewid Gwybodaeth. Mae'n gyfrifol am gyflwyno rhaglen strategol Entrepreneuriaeth Ieuenctid Llywodraeth Cymru, sy'n cyd-fynd â Strategaeth Fenter y sefydliad ar gyfer 2023-28, trwy gefnogi myfyrwyr a graddedigion i fod yn fwy entrepreneuraidd a darparu'r meddylfryd, y profiadau a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i ddechrau eu busnes eu hunain, gyrfa lawrydd neu fenter gymdeithasol. Mae hefyd yn cefnogi'r gwaith o gyflawni ymrwymiadau ar gyfer gweithgareddau masnachol, twf busnes newydd a chenhadaeth ddinesig fel y nodir yng Nghronfa Arloesi Ymchwil Cymru (RWIF).

## AMDANOM NI...



**Emma Dunbar**
Cyfarwyddwr Cyswllt Cyfnewid Gwybodaeth



**Kelly Jordan**
Rheolwr Menter Myfyrwyr



**Angus Phillips**
Swyddog Menter Myfyrwyr



**Joel Bowen**
Gweinyddwr Menter Myfyrwyr

## CYSYLLTU Â NI...

- enterprise@swansea.ac.uk
- www.swansea.ac.uk/enterprise
- Instagram: Enterprise_SwanUni
- LinkedIn: Swansea-university-enterprise
- TikTok: Enterprise_SwanUni

### Grant Entrepreneuriaeth Ieuenctid Llywodraeth Cymru

Mae'r tîm menter myfyrwyr yn cael cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r Warant i Bobl Ifanc er mwyn annog a chefnogi pobl ifanc i fod yn fwy entrepreneuraidd a helpu'r rhai sydd â diddordeb mewn dechrau busnes i fwrw ymlaen â'u syniadau.

### Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru (RWIF)

Mae MEDR (Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru) wedi darparu Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru i gynnal y gweithgareddau arloesi presennol ym Mhrifysgol Abertawe a chynyddu'r gallu i gefnogi sefydliadau ledled y rhanbarth.

### Prifysgolion Santander

Fel un o 75 Prifysgol Santander, mae Prifysgol Abertawe'n derbyn cyllid i gefnogi Addysg, Cyflogadwyedd a Menter. Mae **£15,000** o hyn yn cefnogi myfyrwyr i ddechrau busnesau, a chaiff ei ddyfarnu drwy gystadleuaeth Cynnig Mawr y Brifysgol.





# EIN **GWELEDIGAETH**

## STRATEGAETH FENTER Y SEFYDLIAD 2023-2028

Mae menter ac entrepreneuriaeth wrth wraidd arloesedd ym Mhrifysgol Abertawe. Fel sefydliad sy'n cynnal llawer iawn o ymchwil, ein gweledigaeth yw bod yn brifysgol sydd ar y blaen yn fyd-eang o ran grymuso unigolion i greu newid cadarnhaol yn y byd trwy fenter, arloesedd, partneriaeth, cyfnewid gwybodaeth, ac ymgysylltu cymunedol trawsnewidiol. Rydym yn ceisio creu gwaddol parhaus o effaith a gwerth ychwanegol sy'n cyfoethogi bywydau unigolion a chymunedau, nawr ac yn y dyfodol.

# EIN **CENHADAETH**

**Gwella** ein henw da ym maes mentergarwch ac entrepreneuriaeth trwy **hyrwyddo amgylchedd agored** a **deinamig, llawn ymddiriedaeth** ar gyfer **cydweithio**, **creadigrwydd**, a **chymryd cyfleoedd** o fewn ein cymuned staff a myfyrwyr, a chyda'n partneriaid.

**Meithrin talent** a **blaenoriaethu amrywiaeth**, **cydraddoldeb** a **chynhwysiant**, gan sicrhau bod pawb yn cael cyfle i gyfrannu a llwyddo.

**Cefnogi'r gwaith** o **ddarparu ymchwil** ac **arloesedd cydweithredol** a **throsglwyddadwy**, **creu menter ac atebion arloesol** a fydd yn effeithio ar rai o heriau mwyaf dybryd y byd.

Gosod Prifysgol Abertawe fel **partner a ffefrir yn y DU** wrth ymateb i **anghenion ein rhanbarth** a **chyflawni er budd y cyhoedd**.

## **Rownd Derfynol Fyd-eang Actifadyddion Arloesi ac Entrepreneuriaeth** Triple E 2025

**Ail yng Nghymru a 15fed yn y DU**
ar gyfer busnesau sydd newydd gofrestru

Mae'r Ysgol Reolaeth wedi cael achrediad y **Siarter Busnesau Bach** a'r **Siarter Entrepreneuriaeth Gynhwysol**

**Rownd Derfynol Fyd-eang Actifadyddion Arloesi ac Entrepreneuriaeth**
Triple E 2024

Rhestr fer **Gwobr Prifysgol Entrepreneuraidd Eithriadol** y Times Higher Education 2021 a 2023

# YMRWYMIAD I'N MYFYRWYR AR DRAWS POB DISGYBLAETH

**Rydym ni wedi creu fframwaith i gefnogi "Taith Entrepreneuraidd" ein myfyrwyr trwy ddarparu amgylchedd cynhwysol a hygyrch i helpu ein myfyrwyr i ddatblygu eu sgiliau, meddylfryd a chydnerthedd entrepreneuraidd er mwyn eu hannog i ddechrau busnesau newydd.**

| Cyfadran y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol | Cyfadran Gwyddoniaeth a Pheirianneg | Cyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd |
|---|---|---|

## 14,810 WEDI YMGYSYLLTU

Cyflwynwyd myfyrwyr i entrepreneuriaeth trwy sgyrsiau i godi ymwybydddiaeth, gweithgareddau a digwyddiadau gyrfaoedd.

| 43% | 38% | 19% |
|---|---|---|

## 1,542 WEDI'U GRYMUSO

Archwilio a datblygu eu gallu entrepreneuraidd drwy gynnal gweithdai, hacathonau a mentrau entrepreneuraidd.

| 36% | 43% | 21% |
|---|---|---|

## 508 O SYNIADAU WEDI'U DILYSU

Trwy fasnachu prawf a mentora.

| 43% | 33% | 24% |
|---|---|---|

## 189 WEDI'U MEITHRIN

Er mwyn dechrau busnes trwy gyfarfodydd cyngor busnes 1-2-1.

| 52% | 20% | 28% |
|---|---|---|

## 110 O FUSNESAU WEDI DECHRAU

| 44% | 30% | 26% |
|---|---|---|





# YMRWYMIAD I FENTER YN Y CWRICWLWM

**1,387 o fyfyrwyr:** wedi cofrestru ar 34 o fodiwlau sy'n canolbwyntio ar fenter, entrepreneuriaeth neu arloesi

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 19 | Cyfadran y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol | 9 | Cyfadran Gwyddoniaeth a Pheirianneg | 6 | Cyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd |
| 15 | Yr Ysgol Reolaeth | 7 | Ysgol Peirianneg a Gwyddorau Cymhwysol | 3 | Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe |
| 3 | Ysgol Wyddoniaeth | 1 | YHsgol Mathemateg a Chyfrifiadureg | 3 | Ysgol Iechyd a Gofal Cymdeithasol |
| 1 | Ysgol Diwylliant a Chyfathrebu | 1 | Ysgol y Biowyddorau, Daearyddiaeth a Ffiseg | | |

## Cwrs Datblygu Gyrfa

Adnoddau hygyrch ac integredig ynghyd â rhaglen o weithdai, sesiynau hyfforddi a seminarau i wella'r sgiliau sy'n berthnasol i'r gweithgaredd menter. Mae enghreifftiau'n cynnwys ein "Cwrs Datblygu Gyrfa". Fel rhan o'r cwrs, gall myfyrwyr a graddedigion diweddar ymgymryd ag unedau o'u gwirfodd i wella eu cyflogadwyedd. Mae "Dechrau Eich Busnes Eich Hun" yn un o'r 16 uned, ac mae 60 o bobl wedi ymgymryd â'r uned.

## Menter Myfyrwyr yn Lansio Hwb Canvas

Ym mis Ionawr 2025, lansiwyd Hwb Menter Myfyrwyr pwrpasol ar Canvas, platfform dysgu canolog y Brifysgol. Nod yr Hwb yw cynyddu gwelededd a hygyrchedd a'i gwneud hi'n haws i fyfyrwyr ddarganfod ac ymgysylltu â chymorth menter ochr yn ochr â'u hastudiaethau academaidd.

Mae'r Hwb yn cynnwys casgliad cynyddol o offer ac adnoddau i gefnogi entrepreneuriaid sy'n fyfyrwyr ac yn raddedigion, gan gynnwys canllawiau ar ddechrau busnes, calendrau digwyddiadau, recordiadau o weithdai, astudiaethau achos, y cwis Catalydd Menter, a dolenni i gymorth lleol ar gyfer dechrau busnes. Ers ei lansio, mae 20 o fyfyrwyr wedi hunan-gofrestru, a disgwylir i'r diddordeb gynyddu wrth i'r Hwb gael ei ymgorffori ym mywyd myfyrwyr.

## Priodoleddau Graddedigion "Entrepreneuraidd" trwy Ailgynllunio'r Cwricwlwm

Fel rhan o waith parhaus Prifysgol Abertawe i drawsnewid y cwricwlwm, bydd cyrsiau yn ymgorffori datblygiad priodoleddau graddedigion, gan sicrhau bod myfyrwyr yn datblygu'r meddylfryd a'r sgiliau i wneud cyfraniad fel dinasyddion byd-eang arloesol.

- **Gweithwyr Proffesiynol Pwnc**
- **Arweinwyr Cydweithredol**
- **Cyfathrebwyr Effeithiol**
- **Meddylwyr Arloesol**
- **Mynd i'r afael â Heriau Byd-eang**








# YSBRYDOLI ENTREPRENEURIAETH

## Prifysgol Abertawe yn ymuno â WEInnovate National, rhwydwaith cyntaf y DU dan arweiniad prifysgolion ar gyfer cefnogi entrepreneuriaid benywaidds

Dan arweiniad Imperial College Llundain, mae menter WE Innovate National yn dwyn ynghyd bartneriaid sefydlu gan gynnwys Prifysgol y Frenhines Belfast, Prifysgol Glasgow, Prifysgol Durham, a Phrifysgol Abertawe. Yn seiliedig ar raglen lwyddiannus Imperial College, WE Innovate, bydd y cyflwyniad cenedlaethol yn cefnogi **150** o dimau dan arweiniad menywod bob blwyddyn, gan gynnig dosbarthiadau meistr, mentora arbenigol, hyfforddiant busnes, a chefnogaeth gan gymheiriaid, gan arwain at gystadleuaeth gyda chronfa wobrau o **£30,000**. Bydd pob prifysgol yn cyflwyno ei fersiwn ranbarthol ei hun, gan arwain at Ddiwrnod Arddangos cenedlaethol a gefnogir gan Rwydwaith WE newydd ledled y DU i gysylltu entrepreneuriaid benywaidd â mentoriaid, buddsoddwyr ac arweinwyr y diwydiant.

Mae cyfranogiad Prifysgol Abertawe yn adlewyrchu ei hymrwymiad cadarn i fenter gynhwysol, gydag uwch arweinwyr yn pwysleisio sut mae'r rhaglen yn cyd-fynd â Strategaeth Fenter y brifysgol drwy ehangu mynediad at gymorth strwythuredig o ansawdd uchel ar gyfer mentrau dan arweiniad menywod. Yn ogystal â hyrwyddo cyfranogiad, nod y fenter yw cyflymu twf sylfaenwyr benywaidd, gan gyfrannu at ecosystem arloesi fwy amrywiol a chynaliadwy ledled Addysg Uwch y DU.

## Cystadleuaeth Cynllun Entrepreneuriaid Ifanc

Teithiodd tîm o bum ymchwilydd ôl-raddedig i Lundain i gynrychioli Prifysgol Abertawe yng nghystadleuaeth fawreddog y Cynllun Entrepreneuriaid Ifanc, rhaglen ryngwladol sy'n ceisio codi ymwybyddiaeth o fasnacheiddio ymhlith myfyrwyr Meistr a PhD, ymchwilwyr ôl-ddoethurol, cymrodyr ymchwil a thechnegwyr. Cyflwynodd y tîm syniad arloesol gyda'r nod o leihau effaith clefyd Parkinson. Er na wnaeth y tîm lwyddo i gyrraedd y rownd derfynol, cafodd yr aelodau brofiad gwerthfawr a chyfle i ddysgu am entrepreneuriaeth ym maes STEM.

> *Roedd cymryd rhan yng Nghynllun Entrepreneuriaid Ifanc YES24 yn brofiad gwych. Mae wedi fy helpu i ddeall y safonau a'r gofynion ar gyfer busnes llwyddiannus ym maes STEM. Mae gallu gweld pobl go iawn sydd wedi cyflawni eu nodau neu sydd ar y trywydd iawn i gyflawni eu nodau wedi bod yn brofiad gwirioneddol addysgiadol ac ysbrydoledig.*
>
> **Freya Hamblin**
> EngD Deunyddiau, Modelu a Gweithgynhyrchu



# ADEILADU CYMUNEDAU O ENTREPRENEURIAID

**Rydym ni'n cynnal digwyddiadau a mentrau i adeiladu cymunedau o entrepreneuriaid ymhlith ein myfyrwyr a'n graddedigion, gan gynnwys cyfleoedd i fyfyrwyr a chymdeithasau arwain eu gweithgareddau eu hunain â ffocws ar fenter, gan greu cymuned entrepreneuriaeth sy'n gynhwysol, yn hygyrch ac yn llawn cysylltiadau.**

- **5** DIGWYDDIAD I DDATBLYGU ENTREPRENEURIAID PGR
- **40** O DDIGWYDDIADAU I ADEILADU RHWYDWEITHIAU A CHYMUNEDAU
- **144** O DDEFNYDDWYR LAUNCHPAD

## Dod ag Entrepreneuriaeth i Galon Bywyd Campws

Mae stondinau codi menter myfyrwyr i'w gweld yn aml ar y ddau gampws gan hyrwyddo digwyddiadau a gwasanaethau menter sydd ar y gweill a hybu entrepreneuriaeth. Yn ogystal â mynychu ffeiriau gyrfaoedd, digwyddiadau Ffeiriau'r Glas, Graddio a chyflogadwyedd, mae'r stondinau codi rheolaidd hyn yn helpu myfyrwyr i gysylltu enwau ac wynebau a sicrhau eu bod yn hygyrch ac yn gyfarwydd iddynt. Gosodir lluniau maint llawn o fyfyrwyr entrepreneuraidd diweddar mewn mannau poblogaidd ledled y campws, ac mae'r lluniau hyn yn cynnwys codau QR i gael mynediad at fideos o'u taith tuag at ddechrau busnes, a dolenni i gymorth menter.



**Angus Phillips** Swyddog Menter Myfyrwyr






**Joel Bowen** Gweinyddwr Menter Myfyrwyr







## Creu Gwneuthurwyr Newid trwy Hacathonau

### INVENT FOR THE PLANET



Mae Invent for the Planet yn her arloesi fyd-eang 48 awr dan arweiniad Prifysgol Texas A&M, un o bartneriaid strategol Abertawe. Abertawe yw'r unig brifysgol yn y DU sydd wedi cael gwahoddiad i gymryd rhan, ac mae dros **200** o fyfyrwyr wedi cymryd rhan ers 2018.

Mae myfyrwyr yn sefydlu timau lleol i fynd i'r afael â heriau byd-eang brys fel newid yn yr hinsawdd, ynni a glanweithdra. Mae pob tîm yn datblygu prototeip ac yn gwneud cyflwyniad byr, ac mae'r datrysiad buddugol yn cael cyfle i gystadlu yn y Rownd Derfynol yn Texas. Mae timau Abertawe wedi cyrraedd y rownd derfynol ddwywaith, yn gyntaf yn 2019 ac yn fwyaf diweddar yn 2023, pan goronwyd tîm H2Grow yn enillwyr byd-eang.

Yn 2025, cystadlodd **40** o fyfyrwyr o **11** gwlad o bob rhan o'r Gyfadran Gwyddoniaeth a Pheirianneg. Cynhaliwyd y digwyddiad gan y tîm menter myfyrwyr a Phartneriaethau Academaidd, gyda chyllid gan Gronfa Arloesi Ymchwil Cymru. Dyfarnwyd gwerth **£3,500** mewn gwobrau gan Engineers in Business Fellows a'r Academi Frenhinol Peirianneg.

Roedd ein tîm buddugol o Abertawe, Waste2Watts, wedi mynd i'r afael â glanweithdra gwael mewn tai o ansawdd gwael trwy ddyfeisio toiled bionewidydd sy'n trosi gwastraff yn fiodanwydd.

Roedd y beirniaid yn cynnwys uwch gynrychiolwyr o Brifysgol Abertawe, TATA Steel, a RAEng. Cafodd y digwyddiad hwn ei ganmol gan y cyfranogwyr am ei ddwyster, ei gyfle i gydweithredu, ac am ei berthnasedd i'r byd go iawn.

> ***Adborth gan fyfyrwyr sy'n cymryd rhan:***
>
> *Fe wnes i fwynhau'r profiad yn fawr, gan gwrdd â phobl wych a gwella fy sgiliau rheoli a chyflwyno prosiect. Roedd angen gwneud llawer o waith a cholli rhywfaint o gwsg ond roedd yn werth yr ymdrech!"*
>
> *"Roedd y digwyddiad yn gyfle i mi weithio gyda nifer o bobl anhygoel, cael profiadau newydd, ac fel myfyriwr peirianneg, ehangu fy ngwybodaeth am y byd go iawn.*

### HACATHON LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL

Fe wnaeth myfyrwyr o Gyfadran y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol gymryd rhan mewn hacathon egni uchel yn canolbwyntio ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Gweithiodd myfyrwyr mewn timau i ddatblygu datrysiadau menter a oedd yn cyd-fynd â nodau'r Ddeddf, gan gynnwys Cymru iachach, mwy cydnerth sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Mewn un diwrnod yn unig, fe aeth myfyrwyr i'r afael â heriau'r byd go iawn mewn meysydd fel iechyd meddwl, cynaliadwyedd, cydlyniant cymunedol, a chynhwysiant economaidd. Yn ystod rhan olaf y digwyddiad, cafwyd cyflwyniadau i banel o sylfaenwyr mentrau cymdeithasol a beirniaid o'r gyfadran, ac roedd cyfle i'r timau arddangos arloesedd, gwaith tîm, ac ymwybyddiaeth gymdeithasol.

Roedd yr adborth gan fyfyrwyr a phartneriaid yn hynod gadarnhaol, gan ganmol y digwyddiad am wneud y Ddeddf yn ddiriaethol ac yn berthnasol trwy gynnal gweithgareddau menter ymarferol, wedi'u hysgogi gan fyfyrwyr.

Yn ogystal ag amlygu potensial myfyrwyr i greu newid, roedd yr hacathon hwn yn dangos pwysigrwydd ymwreiddio cynaliadwyedd a chyfrifoldeb cymdeithasol mewn addysg fenter.



## Digwyddiadau Rhwydweithio Cwrdd a Chymysgu



Parhaodd y gyfres rwydweithio Cwrdd a Chymysgu, ac fe gafwyd partneriaeth â **Tramshed Tech** yn yr Hydref, yn ei safle newydd yn Theatr y Palas hanesyddol yn Abertawe. Roedd y digwyddiad yn cynnwys taith o amgylch y safle a agorwyd yn ddiweddar, sy'n darparu gofod cydweithio a mentrau ar gyfer busnesau newydd, a sesiwn rwydweithio llawr agored ar gyfer y **21** o fyfyrwyr a oedd yn bresennol a nifer o entrepreneuriaid lleol.

Parhaodd y gyfres yn y Gwanwyn, ac fe gafwyd partneriaeth rhwng tîm menter y myfyrwyr â **Tanya May**, darlithydd Sbaeneg a gwirfoddolwr cymunedol gweithgar, er mwyn cynnal **"Passion to Action"**, digwyddiad rhwydweithio yn canolbwyntio ar entrepreneuriaeth gymdeithasol. Roedd llawer o fyfyrwyr Tanya wedi mynegi diddordeb mewn lansio mentrau sy'n cael effaith gymdeithasol, gan ysbrydoli'r cydweithrediad. Daeth y digwyddiad hwn â pherchnogion busnes o'r trydydd sector, **20** o fyfyrwyr, ac aelodau o'r gymuned at ei gilydd i rannu profiadau, archwilio cyfleoedd, a thrafod sut i sbarduno menter gymdeithasol a newid cadarnhaol ledled y rhanbarth.






## Cyfleoedd Masnachu i Fyfyrwyr

Mae cyfleoedd masnachu prawf a ddarperir ar y campws trwy'r Stondinau Masnach Myfyrwyr a'r Marchnadoedd Gwneuthurwyr chwarterol, ochr yn ochr â digwyddiadau dros dro rhanbarthol, yn gyfle i fyfyrwyr brofi, dilysu a gwerthu eu cynnyrch yn uniongyrchol i'r cyhoedd. I lawer, dyma eu profiad busnes cyntaf yn y byd go iawn, ac mae'n cynnig adborth hynod bwysig gan y farchnad.

Eleni, roedd **17** o fyfyrwyr wedi masnachu ar y campws ac yn lleol, gan helpu i ddatblygu'r gymuned masnachwyr annibynnol lleol a gwella eu dulliau gwerthu hanfodol. Roedd tua **775** o fyfyrwyr a staff wedi mynychu'r Marchnadoedd Gwneuthurwyr, gan greu cyfanswm o dros **£4,000** i'r cynhyrchwyr.











## Y Launchpad Myfyrwyr

Mae'r Launchpad yn ofod cydweithio ar y campws sy'n gweithredu fel hwb cymorth hanfodol. Mae'n cyfuno arweiniad un-i-un ffurfiol â rhwydweithio anffurfiol â chydweithwyr, gan greu gofod agored a diogel lle mae arloesedd yn teimlo'n weladwy ac yn hyfyw. Mae'r gofod, ynghyd â digwyddiadau rhwydweithio **Cwrdd a Chymysgu** rheolaidd, yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o wreiddio menter ym mywyd bob dydd myfyrwyr ac yn ehangu cysylltiadau myfyrwyr-sylfaenwyr.





## Fideos Astudiaeth Achos Busnesau Newydd

Er mwyn annog mwy o fyfyrwyr i ystyried entrepreneuriaeth pan fyddant yn astudio yn y brifysgol ac ar ôl graddio, rydym wedi parhau i gynhyrchu ein cyfres o fideos sy'n dangos astudiaethau achos, gan roi sylw i fyfyrwyr a graddedigion sydd wedi sefydlu busnesau dros y blynyddoedd diwethaf.

## Hwb Gyrfaoedd Prifysgol Abertawe

Mae cynhwysiant a hygyrchedd wrth wraidd dull gweithredu Prifysgol Abertawe. Mae pob menter yn cael ei chefnogi gan Hwb Gyrfaoedd, prosiect a ariennir gan Medr sy'n cynnig cymorth wedi'i dargedu i'r rhai sy'n dod o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Mae hyn yn helpu i ddarparu cymorth ychwanegol (gan gynnwys cyllid ac adnoddau) i fyfyrwyr sy'n tueddu i wynebu rhwystrau i entrepreneuriaeth. Mae enghreifftiau'n cynnwys cynnig **£4,500** yn ychwanegol i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol trwy gystadleuaeth Y Cynnig Mawr a digwyddiadau wedi'u teilwra er mwyn helpu i ddileu agweddau ynysig a gwneud entrepreneuriaeth yn hygyrch i bawb.

# YMRWYMIAD I GEFNOGI **PARTNERIAID A RHANDDEILIAID**

**6** CEFNOGAETH I 6 DIGWYDDIAD PARTNER RHANBARTHOL

**21** CYNNWYS 21 O GYN-FYFYRWYR MEWN GWEITHGAREDD

## Expo Sefydlu Busnesau Newydd 4TheRegion 2025




Cynhaliwyd Expo Sefydlu Busnesau Newydd 4TheRegion yn Arena Abertawe ar 5 Mawrth gan ddwyn ynghyd sefydliadau cymorth i fusnes, cyllidwyr a chynghorwyr er mwyn arddangos y cymorth sydd ar gael i ddarpar entrepreneuriaid o bob rhan o'r De-orllewin.

Fel partner allweddol, cydweithiodd Prifysgol Abertawe ag eraill i drefnu'r digwyddiad, a chyflwynodd weithdai Camau i Sefydlu Busnesau Newydd. Roedd yr Expo yn cynnwys prif sgyrsiau ysbrydoledig, trafodaethau panel, stondinau, a chyfleoedd rhwydweithio.

Roedd aelodau'r tîm wrth eu bodd yn gweld nifer o fyfyrwyr a graddedigion o Abertawe ynghyd â **200** o aelodau'r cyhoedd yn dangos diddordeb mewn menter ac yn cymryd eu camau cyntaf tuag at fyd entrepreneuriaeth.

## Digwyddiad "Deallusrwydd Artiffisial i Fusnesau" Agor Arloesi




Cynhaliodd tîm Agor Arloesi Prifysgol Abertawe ddigwyddiad Deallusrwydd Artiffisial yn y Tramshed Tech sydd newydd agor yn Theatr y Palas yn Abertawe, gan arddangos sut mae busnesau yn gallu manteisio ar Ddeallusrwydd Artiffisial. Roedd y digwyddiad yn cynnwys sgyrsiau a thrafodaethau panel gydag arbenigwyr Deallusrwydd Artiffisial ac academyddion, gan gynnwys sesiwn ar **"Defnyddio Deallusrwydd Artiffisial i ddatblygu cynlluniau busnes"** a gyflwynwyd gan y **Rheolwr Menter Myfyrwyr, Kelly Jordan**.

## "Sioe Deithiol Mynediad at Gyllid" Banc Busnes Prydain

Cynhaliodd Prifysgol Abertawe **"Sioe Deithiol Mynediad at Gyllid"** Banc Busnes Prydain er mwyn helpu busnesau i ddatgloi eu potensial drwy ddefnyddio opsiynau cyllido strategol sydd ar gael iddynt. Roedd perchnogion busnesau lleol, y Tîm Menter Myfyrwyr, cydweithwyr a nifer o fusnesau newydd a sefydlwyd gan fyfyrwyr yn bresennol, ac roedd cyfle i ddysgu am yr opsiynau cyllid amrywiol sydd ar gael i sawl sector busnes.





## Disgyblion Ysgol Gyfun Brynteg yn Blasu Bywyd Prifysgol ar Gampws Bae Abertawe



Mewn cydweithrediad rhwng **Cyfadran Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Abertawe** ac **Ysgol Gyfun Brynteg,** ymwelodd dros **300** o ddisgyblion a staff â Champws y Bae am ddiwrnod o addysg drochi. I ddechrau'r digwyddiad, traddodwyd dwy ddarlith fawr yn y Neuadd Fawr, ac yna cynhaliwyd ugain o seminarau menter rhyngweithiol yn archwilio themâu sy'n berthnasol i ddatblygiad academaidd a phersonol disgyblion.

Arweiniodd **Dr. Gerad Oram** sesiwn ar hanes De Cymru yn ystod y rhyfel, ac aeth y tîm menter myfyrwyr ati i gyflwyno disgyblion i fenter, arloesedd a chynaliadwyedd, gan hyrwyddo gwaith tîm a datrys problemau mewn gweithdai.

> *Roedd pob un o'n disgyblion wedi mwynhau'r diwrnod yn fawr. Roedden nhw'n llawn diddordeb ac wedi cyfranogi'n llawn... Dywedodd llawer ohonyn nhw eu bod wedi mwynhau bod ar y campws a'r gweithgareddau dysgu. Dywedodd llawer eu bod yn edrych ymlaen at fynd i Brifysgol Abertawe i astudio yn y dyfodol.*
>
> **Nicola Lane**, clwstwr dyniaethau Ysgol Gyfun Brynteg.



# CEFNOGI EIN **BUSNESAU NEWYDD**

**Rydyn ni'n cefnogi myfyrwyr drwy eu taith wrth iddyn nhw sefydlu busnes ac yn helpu'r rhai sydd eisoes mewn busnes i dyfu, trwy gyfrwng grantiau sefydlu, sesiynau ymgynghori a rhoi cyngor busnes, gweithdai rhyngweithiol, bŵt-camp i fusnesau, mentora a mwy.**

| | |
|---|---|
| **1** | **BŴT-CAMP I FUSNESAU** |
| **27** | **O FYFYRWYR WEDI MYNYCHU BŴT-CAMP I FUSNESAU** |
| **2** | **HACATHON** |
| **3** | **CYSTADLEUAETH DECHRAU BUSNES** |

## Entrepreneur Preswyl

Mae gan Chris James dros dri degawd o arbenigedd entrepreneuraidd ac ymgynghori. Mae wedi sefydlu wyth busnes ac wedi bod yn gyfarwyddwr mewn 14 o gwmnïau. Mae ei brofiad yn cwmpasu technoleg, manwerthu, meddalwedd, marchnata, gwasanaethau proffesiynol, a'r trydydd sector. Yn ystod ei 35 mlynedd o ymgynghori, mae Chris wedi cynghori sefydliadau academaidd, asiantaethau datblygu, a mwy na **400** o BBaChau, gan eu helpu i dyfu, addasu ac arloesi mewn amgylcheddau sy'n newid yn gyflym.




Chris James

Eleni, mae Chris wedi cefnogi **133** o fyfyrwyr a graddedigion trwy gynnal cyfarfodydd sefydlu busnes personol i roi arweiniad iddynt ar eu taith fusnes. Hefyd, mae wedi cynnal sesiynau dosbarth meistr bob mis ar gynllunio ariannol, cofrestru busnesau a chynnig syniadau.

> *Ar ôl sawl cyfarfod gyda Chris, mae'n deimlad cyffrous iawn i allu dweud bod fy musnes bellach yn barod i dderbyn cyllid.*
>
> **Radiya Fazly**
> Myfyriwr Ffarmacoleg Feddygol
>
> *Diolch i gymorth Chris, rwyf newydd gyrraedd carreg filltir gyda fy musnes, PD Grip! Rwyf newydd gyrraedd cyfanswm o £1,000 mewn gwerthiant, ac fe hoffwn ddiolch yn fawr iddo am ei holl gefnogaeth.*
>
> **Mateo Tadic**
> Sylfaenydd PD Grip sydd â gradd mewn Peirianneg Gemegol

## Cronfa'r Sylfaenwyr

Lansiwyd Cronfa'r Sylfaenwyr eleni i roi cyfle i fyfyrwyr a graddedigion wneud cais am **£500**, **£1,000** neu **£3,000** tuag at lansio, datblygu neu dyfu eu mentrau. Ers ei lansio, rydym wedi dyfarnu dros **£15,000** i **18** o entrepreneuriaid sy'n fyfyrwyr neu'n raddedigion. Nod y cyfle ariannu yw dileu rhwystrau, helpu busnesau newydd i dyfu, rhagori ar y gyfradd oroesi 3 blynedd, cael effaith gadarnhaol, a chefnogi twf economaidd yn y rhanbarth.








## Bŵt-camp i Fusnesau 2025 Prifysgol Abertawe




Roedd y bŵt-camp pedwar diwrnod dwys yn cyflwyno'r sgiliau, y meddylfryd a'r adnoddau sydd eu hangen ar fyfyrwyr a graddedigion i ddatblygu a lansio eu syniadau busnes trwy weithdai ymarferol, mentora arbenigol, a heriau'r byd go iawn. Fe gafwyd sgyrsiau ysbrydoledig gan gyn-fyfyrwyr entrepreneuraidd bob dydd. Roedd yr adborth i'r digwyddiad yn canmol amgylchedd rhyngweithiol a chefnogol y bŵt-camp, y sesiynau dan arweiniad arbenigwyr ar bynciau fel llif arian a brandio, a'r cyfle i ddatblygu hyder, rhwydweithiau a chyfeillgarwch. Mae'r rhaglen wedi arwain at greu busnesau newydd, wedi helpu sawl un arall i baratoi am y cam lansio, ac wedi cynnig mentora a chymorth personol dilynol i gyfranogwyr.

> *Fe ddysgais lawer am fusnes a sut i ddatblygu fy nghynllun busnes, ond doeddwn i ddim yn disgwyl gwneud cymaint o ffrindiau ac ehangu fy rhwydwaith.*
>
> **Jasper Charter**
> Rheolaeth Busnes
>
> *Amgylchedd diogel, awyrgylch da, cyfle da i ofyn cwestiynau a dysgu, dim cywilydd a dim barnu.*
>
> **Victoria Farrow**
> Cyfryngau a Chyfathrebu
>
> *Roedd llawer iawn o wybodaeth wedi'i chyflwyno, roedd pobl yn lleisio eu barn yn onest, ac roedd cyfleoedd ardderchog i rwydweithio. Hefyd, roedd yn dda cael gwrando ar y siaradwyr gwadd a gafodd eu cefnogi gan y tîm menter myfyrwyr. Roedd yn ddiddorol iawn dysgu am y gwahanol fathau o fusnesau a dulliau gweithredu.*
>
> **Amber Rowsell**
> Peirianneg Sifil

## Y Cynnig Mawr

Caiff y gystadleuaeth hon ei noddi gan Santander Universities UK, ac mae'n cefnogi busnesau newydd sy'n cael eu sefydlu gan fyfyrwyr ac yn arddangos rhai o'u mentrau arloesol. Denodd y gystadleuaeth flynyddol **14** o gyflwyniadau gan egin entrepreneuriaid. Roedd y panel beirniaid yn cynnwys un o gyn-fyfyrwyr y Brifysgol, Ben Reynolds sy'n sylfaenydd Urban Foundry, Kim Mamhende o Ganolfan Entrepreneuriaeth Affrica, a Hannah Worth, Sylfaenydd Bowla Ltd.

- **Dyfarnwyd £7,000 i 6 busnes**
- **Dyfarnwyd mentoriaeth i 11 busnes**
- **9 lle ar raglenni sbarduno pwrpasol**

> **Adborth gan fyfyrwyr a gymerodd ran:**
>
> *Roedd yr amrywiaeth o gynigion a chyfleoedd a gafodd eu trafod yn rhagorol.*
>
> *Roedd yn ddigwyddiad anhygoel, ac rwy'n hoffi'r ffaith ei fod yn lle ar gyfer pobl sydd â'r un meddylfryd sydd eisiau adeiladu busnesau.*




## Cronfa Fflach Sylfaenwyr Santander

Yn ystod y misoedd ar ôl y **Cynnig Mawr**, dyfarnwyd **£8,000** arall i **13** o fyfyrwyr ychwanegol a oedd wedi gwneud cais i Gronfa Fflach Sylfaenwyr Santander, i gefnogi datblygiad eu busnes.

# **£38,905** WEDI'I FUDDSOSSI MEWN MENTRAU BUSNES

**£15,000**

**GAN SANTANDER UNIVERSITIES UK I GEFNOGI LANSIO A THYFU BUSNESAU**

Santander Universities

**£15,650**

**GAN GRONFA ARLOESI YMCHWIL CYMRU (RWIF) I GEFNOGI LANSIO A THYFU BUSNESAU**

Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

**£4,500**

**GAN Y TÎM HWB GYRFAOEDD I GEFNOGI MYFYRWYR SYDD HEB GYNRYCHIOLAETH DDIGONOL I DDECHRAU BUSNESAU NEWYDD**

Swansea University Prifysgol Abertawe | Career Boost Hwb Gyrfaoedd

**£3,000**

**GAN ENGINEERS IN BUSINESS I GEFNOGI INVENT FOR THE PLANET**

Engineers in Business Fellowship

**£255**

**GAN GYN-FYFYRWYR I GEFNOGI MENTRAU BUSNES**

Swansea University Prifysgol Abertawe

**£500**

**GAN YR ACADEMI FRENHINOL PEIRIANNEG I GEFNOGI INVENT FOR THE PLANET**

Royal Academy of Engineering





# YMRWYMIAD I **STAFF**

**133** **HYRWYDDWR ENTREPRENEURIAETH YMYSG STAFF HYD YN HYN**

**Mae'r brifysgol yn parhau i ddatblygu ei chymunedau mewnol, gan weithio ar y cyd i greu synergeddau a chysylltiadau ar draws tair cyfadran y brifysgol a'r adrannau proffesiynol. Mae hyn yn sicrhau ein bod yn cefnogi rhannu arferion gorau, adnoddau ac addysgu ar draws cyfadrannau, er mwyn chwalu ffiniau a seilos traddodiadol a grymuso eraill i gyflawni entrepreneuriaeth.**

## Hyfforddiant Addysg Menter ar gyfer Staff Academaidd

**"Creu meddylwyr arloesol a graddedigion entrepreneuraidd: Sut i ymwreiddio arloesedd a menter yn eich cwricwlwm."**

Er mwyn cefnogi'r broses o drawsnewid y cwricwlwm i geisio ymwreiddio priodoleddau arloesol ac entrepreneuraidd ym mhob un o raddedigion y Brifysgol, cynhaliwyd gweithdy addysg menter deuddydd dan arweiniad **yr Athro Emeritws adnabyddus Andy Penaluna**. Roedd y cwrs yn cyflwyno gwybodaeth ymarferol er mwyn helpu staff academaidd i feithrin dulliau arloesol o addysgu myfyrwyr, gan gyd-fynd â phriodoledd "meddylwyr arloesol" graddedigion y Brifysgol. Roedd y gweithdy yn trafod modelau a fframweithiau cymhwysedd Canolfan Ymchwil ar y Cyd yr UE, fel y polisi OECD a chanllawiau QAA, ac roedd yn cwmpasu meysydd fel asesu sy'n canolbwyntio ar arloesi, eiddo deallusol, a niwrowyddoniaeth dysgu ar gyfer arloesi. Cafodd y cwrs ei ganmol gan aelodau staff am ei ddyfnder a'i gymhwysedd, a dywedodd llawer eu bod yn bwriadu cynnwys elfennau ohono wrth addysgu.


Rr Athro Andy Penaluna

## Cynhadledd SALT - Gweithdy Addysg Menter

Er mwyn hyrwyddo'r broses o drawsnewid y cwricwlwm a chyflwyno Priodoleddau Graddedigion y sefydliad, cydweithiodd y tîm â'r Dirprwy Is-Ganghellor Cyflogadwyedd a Sgiliau, yr Athro Gavin Bunting, a'r Arweinydd Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd, Simeon Smith, i gyflwyno gweithdy Hacathon Priodoleddau Graddedigion rhyngweithiol fel rhan o Gynhadledd SALT flynyddol y brifysgol.

Ffurfiodd dros **200** o fynychwyr o bob rhan o'r Brifysgol grwpiau amlddisgyblaethol er mwyn cynllunio her hacathon y gallai eu holl fyfyrwyr ymgysylltu â hi. Fe wnaethant archwilio sut i gynnwys rhanddeiliaid fel diwydiant, cyn-fyfyrwyr, a phartneriaid strategol er mwyn cyfoethogi'r profiad, yn ogystal â sut i asesu gweithgaredd o'r fath.

Cafwyd adborth cadarnhaol i'r digwyddiad a oedd yn dangos sut mae'r math hwn o weithgaredd yn gallu cwmpasu pob un o'r pum Priodoledd Graddedigion. Bydd y tîm cyflwyno yn dilyn y syniadau a gafwyd ac yn cynnig cymorth i'r rhai sydd â diddordeb mewn cynnal mentrau tebyg yn eu modiwlau.




staff.swansea.ac.uk/academies/salt/what-we-do/conference/2025




Sylfaenydd Macro Shack, Joe Austin





# DATHLU **LLWYDDIANT**

## Rownd Derfynol Gwobrau Triple E 2024 a 2025

Mae Prifysgol Abertawe wedi derbyn cydnabyddiaeth ryngwladol am ddwy flynedd yn olynol drwy'r Gwobrau Triple E mawreddog, sy'n dathlu rhagoriaeth mewn entrepreneuriaeth ac ymgysylltu mewn addysg uwch. Yn 2024, daeth y Brifysgol yn Ail yn y categori Prifysgol Arloesol ac Entrepreneuraidd y Flwyddyn, gwobr sy'n cydnabod sefydliadau am gyflwyno syniadau, cynhyrchion neu atebion arloesol sydd wedi cael effaith ystyrlon. Er mai Prifysgol Dundee oedd yr enillydd, roedd Emma Dunbar, Cyfarwyddwr Cyswllt Cyfnewid Gwybodaeth, yn teimlo balchder mawr wrth gynrychioli Prifysgol Abertawe yn y seremoni yn Lisbon.

Yn 2025, cyrhaeddodd y tîm menter myfyrwyr y rhestr fer ar gyfer gwobr Gweithredwyr Arloesi ac Entrepreneuriaeth y Flwyddyn. Roedd cais y tîm, "Tîm menter myfyrwyr Prifysgol Abertawe yn sbarduno rhagoriaeth entrepreneuraidd ar y campws a thu hwnt," yn amlygu ei gyfraniad rhagorol at feithrin meddylfryd entrepreneuraidd ymhlith myfyrwyr, staff, a'r gymuned ehangach. Roedd y tîm wrth ei fodd yn cael cydnabyddiaeth ar y llwyfan byd-eang am ei ymrwymiad parhaus i ymwreiddio arloesedd a menter ledled y sefydliad.










## Gwobrau Busnesau Newydd y DU 2025

Mae tri o raddedigion a sylfaenwyr busnes a dderbyniodd gymorth yn ystod eu hamser yn y Brifysgol ac ar ôl hynny wedi ennill gwobrau yn rowndiau rhanbarthol Gwobrau Busnesau Newydd y DU 2025, gan gynnwys Busnes Newydd y Flwyddyn Cymru.

**Mae'r enillwyr yn cynnwys:**

- **Alex Coldea, Dill – Busnes Newydd y Flwyddyn Cymru a Busnes Deallusrwydd Artiffisial Newydd y Flwyddyn Cymru**
- **Dan Eedy, Kiwis - Busnes Bwyd a Diod Newydd y Flwyddyn**
- **Hannah Worth, Bowla - Entrepreneur Ifanc y Flwyddyn**

## Prifysgol Abertawe yn codi yn safleoedd Arolwg Rhyngweithio rhwng Addysg Uwch, Byd Busnes a'r Gymuned (HEBCI)

Mae entrepreneuriaeth wedi ymwreiddio ym mhrofiad myfyrwyr Prifysgol Abertawe, gyda chymorth ecosystem fywiog o fentora, cyllido a gweithgareddau menter. O hacathonau a gweithdai i fodiwlau cymorth a menter wedi'u teilwra ym mhob cyfadran, mae myfyrwyr yn cael eu grymuso i droi syniadau'n fentrau go iawn. Mae'r sylfaen gadarn hon wedi arwain at gydnabyddiaeth genedlaethol, gyda'r brifysgol yn codi i'r **ail safle yng Nghymru** a'r **15fed safle yn y DU** ar gyfer busnesau newydd sydd wedi'u sefydlu gan fyfyrwyr a graddedigion (HEBCI 2023/24). Mae cyfraddau goroesi busnesau wedi cynyddu hefyd, gyda chynnydd o 90% ar gyfer busnesau sy'n goroesi am dair blynedd. O ganlyniad, mae Abertawe wedi esgyn o safle rhif 60 i rif **35 yn y DU**, sy'n tystio i'w chymuned gynyddol o arloeswyr.

# SBOTOLAU AR **FUSNESAU NEWYDD**

## Joelle Drummond – Drop Bear Beer, Sylfaenydd

### Anrhydeddu Entrepreneur sy'n Gyn-fyfyriwr am Effaith a Chynhwysiant yn y Diwydiant



**Yn ystod y Seremoni Raddio ym mis Rhagfyr 2024, dyfarnodd Prifysgol Abertawe Radd Meistr er Anrhydedd yn y Celfyddydau i'r cyn-fyfyriwr Joelle Drummond fel cydnabyddiaeth am ei chyflawniadau eithriadol ym maes entrepreneuriaeth, moeseg a chynaliadwyedd.**

Mae gan Joelle radd BA mewn Ffrangeg ac Eidaleg a gradd meistr mewn Cyfieithu a Dehongli, ac aeth ati i gyd-sefydlu cwmni arloesol Drop Bear Beer Co. yn 2019 gyda'i gwraig, Sarah McNena.

Drop Bear Beer yw'r bragdy di-alcohol cyntaf yn y byd a sefydlwyd gan fenywod o'r gymuned LHDTC+, ac mae'n herio stereoteipiau mewn diwydiant sy'n tueddu i gael ei reoli gan ddynion. Hefyd, y cwmni hwn yw bragdy'r cyntaf yng Nghymru i gael ardystiad B-Corp. Mae gan y busnes ymrwymiad cadarn i effaith gymdeithasol, mae 50% o'i weithlu yn nodi eu bod yn gwiar, ac mae'r busnes yn cynnal partneriaeth elusennol gyda Galop, sy'n cefnogi dioddefwyr cam-drin a thrais o'r gymuned LHDTC+.

**Meddai Joelle wrth gylchlythyr staff y Brifysgol:**

*Ar ôl cael y fraint o raddio ddwywaith o Brifysgol Abertawe, mae derbyn cymrodoriaeth er anrhydedd yn anrhydedd fawr. Rwyf wrth fy modd yn cael y cyfle i barhau i weithio gyda'r Brifysgol er mwyn cryfhau'r cysylltiad rhwng addysg, entrepreneuriaeth a diwydiant blaengar.*

Mae rhagor o wybodaeth am Joelle ar gael yn rhifyn 2025 o'r cylchgrawn cyn-fyfyrwyr, Sails, sy'n canolbwyntio ar thema Entrepreneuriaid ym maes Bwyd a Diod eleni.




## Alex Coldea – Dill, Sylfaenydd

### Dill yn Ennill Gwobr Busnes Newydd y Flwyddyn Cymru a Busnes Deallusrwydd Artiffisial Newydd y Flwyddyn Cymru




**Platfform labelu clyfar sy'n defnyddio deallusrwydd artiffisial yw Dill, a sefydlwyd gan Alex Coldea a raddiodd mewn Cyfrifiadureg o Brifysgol Abertawe.**

Enillodd Dill wobr Busnes Newydd Gorau Cymru yng Ngwobrau Busnesau Newydd Cymru 2025. Mae'r fenter sy'n tyfu'n gyflym yn symleiddio ac yn awtomeiddio'r broses o greu labeli cydymffurfiol, gan helpu busnesau i leihau ymdrech â llaw a chynyddu effeithlonrwydd. Yn wreiddiol o Rwmania, lansiodd Alex gwmni Dill pan oedd yn byw yn Abertawe, ac erbyn hyn mae'r busnes yn gweithredu ar raddfa fyd-eang, gan ddangos llwyddiant datblygiadau arloesol dan arweiniad graddedigion.

**Dywedodd Mr Coldea:**

*Mae ennill gwobr Busnes Newydd y Flwyddyn Cymru 2025 yn foment enfawr i'n tîm, ac mae'n adlewyrchu'r effaith y mae Dill eisoes yn ei chael ar y diwydiannau bwyd a manwerthu.*

*"Fe wnaethon ni ddechrau'r busnes hwn oherwydd ein bod yn teimlo'n rhwystredig am y ffaith fod labelu yn broses araf a chymhleth, a hynny'n ddiangen. Roedd llawer o bobl yn derbyn y broses hon fel un 'normal', ond roedden ni'n gwybod bod modd gwella pethau. Buan iawn y datblygodd datrysiad bach, penodol yn gyfle llawer mwy, ac roedd hynny'n golygu cefnu ar y syniad gwreiddiol a dechrau o'r dechrau."*

*"Mae'r busnes wedi cael ei lansio yn yr Unol Daleithiau yn ddiweddar, ac mae'r cynnyrch yn cael ei ddefnyddio fwyfwy ledled y DU ac Ewrop, y Dwyrain Canol ac Affrica gyda Brother, ein partner caledwedd. Rydyn ni'n datblygu Dill i fod yn haen seilwaith a sbardunir gan ddeallusrwydd artiffisial sy'n gwneud labelu yn anweledig fel gwasanaeth di-dor sy'n gweithredu ar unrhyw safle neu ddyfais. Labelu bwyd a diod oedd y man cychwyn, ond mae'r weledigaeth yn llawer mwy: i ailddiffinio sut mae pob diwydiant yn ymgymryd â gwaith labelu. Dim ond y dechrau yw hyn, ac rydyn ni'n llawn cyffro wrth feddwl am gam nesaf y daith.*

# BUSNESAU NEWYDD 2024-2025

**A2Z Tuitions**
*Abdullah Zamir*
Tiwtor Preifat

**Abundant Travel Consult Ltd**
*Oluwasola Sobola*
Ymgynghorydd Teithio

**Acmel Security and Shipping Consultancy Ltd**
*Emmanuel Ugbodu*
Ymgynghoriaeth Rheoli mewn Diogelwch a Morgludiant

**Adam Mackintosh**
Osteopath Hunangyflogedig

**Aeronova Propellers Ltd**
*Aron Finnemore & Luke Davies*
Propelorau Drôn Argraffu 3D

**AGA Personal Training**
*Alfie Griggs*
Hyfforddwr Personol

**Ajivo Pvt. Ltd**
*Sachin Bahade*
Platfform Prynu a Gwerthu ar-lein

**Amy Thomas Aesthetics**
*Amy Thomas*
Estheteg Harddwch a Chroen

**Anete Murniece**
Osteopath Hunangyflogedig

**Apollo Ipsum**
*Raymond Tang*
Busnes Canhwyllau a wnaed â Llaw

**Arianwen Jones Dog Walking**
*Arianwen Jones*
Cerddwr Ci Hunangyflogedig

**Arumay's Kitchen**
*Arumay Sinacanoo*
Bwyty Caribïaidd

**Ashley Pearce**
Osteopath Hunangyflogedig

**Auto Workflow Wales**
*Ross Usher*
Gwasanaeth Awtomeiddio AI Clyfar

**Blwm Osteopathy**
*Brogan Attlay*
Osteopath Hunangyflogedig

**Brighter Being**
*Ethan Thomas*
Ymgynghoriaeth Maeth ac Iechyd

**BWEN Wales**
*Hadiza Abubakar*
Cwmni Buddiant Cyhoeddus sy'n cefnogi busnesau a berchnogir gan fenywod du

**By Victoria Farrow**
*Victoria Farrow*
Rheolwr Cyfryngau Cymdeithasol a Chrëwr Cynnwys

**Caitlin Rebekah Photography**
*Caitlin Rebekah*
Ffotograffydd Llawrydd

**Casa Technology Ltd**
*Rowan Aldean*
Gwasanaeth Chwilio am Eiddo â chymorth AI

**Cat Tales Cafe Ltd**
*Jess Gaule*
Caffi Cathod

**Charles Djamdijan**
Osteopath Hunangyflogedig

**Choi & Kim**
*Kimin Choi*
Cyfraith Forwrol ac Yswiriant

**Cilgwenyn Bee Farm**
*Dr Rhodri Nicholas Owen*
Gwenynwr sy'n Gwneud Mêl

**Created by Crochet**
*Ella Dean*
Gwerthwr Gwaith Crosio

**Crellin Consulting**
*Sebastian Crellin*
Ymgynghorydd Meddalwedd

**Deezah Botanica Ltd**
*Hadiza Abubakar*
Cynnyrch croen a phersawrau cartref naturiol a wnaed â llaw

**Demetae Dog Training**
*Miles Simcox*
Hyfforddwr Cŵn Proffesiynol

**Distinco Limited**
*Harry Wilson*
Gwasanaethau ac Ymgynghori TG

**DM Tesseract**
*Adam Boyt*
Stiwdio Gemau Annibynnol

**Dosa Designs Limited**
*Albi Jinson*
Gwisg Stryd sydd wedi'i Hysbrydoli gan Dde India

**Dr Chloe Tulip**
Arbenigwr Iechyd Cwsg

**Dr Perry Wyatt**
Awdur, Bardd a Sgriptiwr

**Dylan Lewis**
Datblygwr Gwefannau

**Edutee Global**
*Theresa Ogbekhiulu*
Sefydliad Addysg Nid-er-elw

**Eiconig Cy**
*Joseph Morgan*
Bathodynnau Pin Cymraeg

**Elency Group Ltd**
*Charlie Evans*
Datrysiadau Moduro

**Emanuele Angilletta**
Osteopath Hunangyflogedig

**Emily Ffion Williams**
Syrffiwr Proffesiynol a Hyfforddwr Syrffio

**EPI-Tech**
*Lois Owumi*
Cwmni Technoleg Addysg

**Esby Digital Ltd**
*Gobinth Krishnasamy*
Datblygu Gwefannau

**Evergrace Healthcare Ltd**
*Simphiwe Sibanda*
Asiantaeth Gofal Preswyl

**Fernanda Prata**
Golygydd Cyfnodolion Llawrydd

**Formula 3D Art**
*Alex Brown*
Celf Argraffu 3D sydd wedi'i hysbrydoli gan Fformiwla 1

**Freya Haase**
Osteopath Hunangyflogedig

**Gentle Touch Ltd**
*Dolapo Akinnayajo*
Gwasanaethau Gofal Iechyd

**Girls in Marketing**
*Hannah Sassel Smith*
Awdur Cynnwys Llawrydd

**Goldley Medley Homecare Service**
*Catherine Odiase*
Darparwr Iechyd Gofal Cartref

**Grace Mann Osteopathy**
*Grace Mann*
Osteopath hunangyflogedig

**Grace Morgan**
Hyfforddwr Personol

**Grzegorz Breitkopf**
Datblygwr Gwefannau

**H&B Market Limited**
*William Harrison*
Siop Adwerthu Ar-lein

**Haven Ecology**
*Joey Pickard*
Ymgynghorydd Busnes Arolwg Ecolegol

**Henry Tamblyn**
Cyfieithydd Hunangyflogedig

**HS Fusion Ltd**
*Harry Layton*
Cwmni Meddalwedd a Chaledwedd Ddigidol

**Integrevise**
*Ebenezer Ogoe*
Offeryn Addysg AI

**Irrupt Digital Ltd**
*Oyinlola Williams*
Gwasanaethau Ymgynghori Digidol

**J.W.2020**
*Jess Wang*
Cwmni Ymgynghori Marchnata

**Jack Humbling**
Osteopath hunangyflogedig

**James WM Fitness**
*James Wallis-MacLachlan*
Hyfforddwr Ffitrwydd

**Jeanne Audren de Kerdrel**
Tiwtor Ffrangeg Llawrydd

**Jessica Sahedra Henna**
*Jessica Sahedra*
Artist Henna

**Jewelled Phoenix Ltd**
*Simon Evans*
Gwneuthurwr Gemwaith Unigryw

**J Hurds Coaching**
*Jemma Hurds*
Hyfforddwr Ffitrwydd

**Jula Needham**
Osteopath hunangyflogedig

**Karo Agbro**
Hyfforddwr Personol

**Larkyra Ltd**
*Amber Rowsell*
Offer Triathlon y gellir eu haddasu

**Lauren Kate Griffiths**
Crëwr Cynnwys

**Marketing By Yas**
*Yasmin Santiago*
Marchnatwr Llawrydd

**Martin Calonico Koenig**
Osteopath Hunangyflogedig

**Mirage Media Production**
*Bryan De-Niro Semambo*
Cyfarwyddwr Ffilm Llawrydd

**Moons Massage**
*Tanwen Moon*
Therapydd Tylino

**Morgan Custom Solutions**
*Ben Morgan*
Gwasanaethau Argraffu 3D

**Morgan James Jerrad**
Rheolwr Eiddo

**Munro- Morris Media**
*Daniel Munro-Morris*
Ffotograffydd a Fideograffydd Llawrydd

**Mustafa Niazi**
Dadansoddwr Data Llawrydd

**Nat Edwards Fitness**
*Nat Edwards*
Hyfforddwr Personol

**Neuro-Diverse CCT**
*Heather Irene Esther Pickard-Hengstenberg*
Arbenigwr Niwrowahanol

**Neuron Tutoring**
*Marcus Emery*
Busnes Tiwtora Ar-lein

**New Era Tutors**
*Romi Roomi*
Busnes Tiwtora Ar-lein

**New Heights Performance Academy**
*Rebecca Treseder*
Academi Perfformiad

**NJ Craft Creations**
*Nathan James*
Crefftau a Gwaith Pren Unigryw

**NotaRobot**
*Lloyd Garrett*
Datblygu gwefannau

**Nurturelab Education Ltd**
*Andrea Kriel*
Busnes Tiwtora Ar-lein

**Olivia Young**
Ffotograffydd Llawrydd

**Open Innovation Professional Services**
*Michael Winn*
Gwasanaethau Arloesi Agored Proffesiynol

**Optimal Period**
*Dr Natalie Brown*
Arbenigwr Iechyd Menywod

**Osteopathy with Talia**
*Talia Gould*
Osteopath Hunangyflogedig

**PD Grip Ltd**
*Mateo Tadic*
Cynnyrch Hufen Llaw Gafael Ychwanegol

**Propelr Agency**
*Oliver Eaton*
Asiantaeth Marchnata Digidol

**RAS Websites**
*Robert Stevens*
Datblygu Gwefannau

**RD Injury & Mobility**
*Richard Dunham*
Gwasanaeth Iechyd Amgen a Holistaidd

**Relieve**
*Fernanda Prata*
Brand dillad isaf arbenigol ar gyfer Hidradenitis Suppurativa

**Riot Translation**
*Camille Riot*
Cyfieithydd Hunangyflogedig

**Rosemary Capwell**
Dadansoddwr Data Llawrydd

**Sam Marshall**
Datblygwr Hunangyflogedig yn MindMoss

**Saurabh Tomer**
Ymgynghorydd Strategaeth Data a Chynnyrch

**Seabury Performance**
*Thomas Seabury*
Hyfforddiant iechyd meddwl arbenigol i athletwyr

**Shenali Fernando**
Cyfieithydd Sbaeneg Llawrydd

**Sinica Analytica**
*Melody Lin*
Dadansoddwr Cynorthwyol Llawrydd

**Siora Ltd**
*Anoshanth Jeyasountharan*
Cwmni Biotechnoleg sy'n arbenigo mewn Micro-hylifeg

**Swansea Flowers**
*Aniqa Bursha*
Gwerthwr blodau

**Synapto AI**
*Aaron Nettle*
Datrysiadau Gwasanaeth AI

**The Wob Mob**
*Charlier Jervis*
Digwyddiadau gyda'r nos yn Abertawe

**Thread Again**
*Matthew Drew*
Adwerthwr ffasiwn cynaliadwy

**Trafford Bage**
Datblygwr Hunangyflogedig yn MindMoss

**View 62**
*Chaliese Anderson-Ludvigsen*
Caffi a Bar ger y Môr

**Wear Letisha**
*Letisha Ndiba*
Crysau-T dyluniad unigryw

**Wishbones Body Therapies Limited**
*Kat Adamcyzk-Rees*
Osteopath Hunangyflogedig

**Yujo Marketing Ltd**
*Syed Ujair*
Gwasanaethau Marchnata

# BLWYDDYN MEWN **LLUNIAU...**



Hyrwyddo Menter yn ystod y Seremoni Raddio


Beirniaid yn edrych ar geisiadau yn y digwyddiad Bŵt-camp i Fusnesau 2025


Kat Adamczyk-Rees cyfranogwr Big Pitch


Sylfaenwyr ClearEar, James Wood a Bethany Hatten



Ymweld â sylfaenwyr Drop Bear Beer, Joelle Drummond a Sarah Drummond






Sylfaenydd Edutee Global, Theresa Ogbekhiulu


Masnachwr sy'n Fyfyriwr yn y Farchnad Gwneuthurwyr



Cyfranogwyr Invent for the Planet 2025


Emilia Leo yn masnachu ar y campws



Swansea University
Prifysgol Abertawe

# ADRODDIAD EFFAITH MENTER MYFYRWYR

## AWST 2024 – GORFFENNAF 2025


enterprise@swansea.ac.uk

www.swansea.ac.uk/enterprise

Enterprise_SwanUni

Swansea-university-enterprise

Enterprise_SwanUni


BYDDWCH YN YSBRYDOLEDIG | CYMERWCH RAN | BYDDWCH YN FENTRUS


**Cynhyrchwyd gan y Gwasanaeth Ymchwil a Chyfnewid Gwybodaeth**